## CYNGOR SIR CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**

**DYDDIAD:** **15 Medi**

**LLEOLIAD:** **Siambr y Cyngor, Penmorfa**

**TEITL:** **Diweddariad ynghylch Cylch Caron**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol ynghylch Prosiect Cylch Caron**

**RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** **Cael diweddariad ynghylch prosiect Cylch Caron**

**CEFNDIR:**

Bydd prosiect Cylch Caron yn darparu meddygfa, fferyllfa gymunedol, clinigau ar gyfer cleifion allanol, cyfleusterau nyrsio cymunedol a gofal cymdeithasol, ynghyd â thai gofal ychwanegol a hynny ar un safle yn Nhregaron. Bydd y cynllun hwn yn darparu model integredig o ofal cymunedol a thai yng nghefn gwlad ac yn cymryd lle Ysbyty Tregaron a Chartref Gofal Preswyl Bryntirion.

Prosiect ar y cyd yw hwn rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

**Y Sefyllfa Bresennol**

Ar ôl colli Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru (Barcud wedi hynny) fel partner datblygu ar gyfer y cynllun, drwy gydsyniad, mae'r holl bartneriaid eraill yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu Canolfan Adnoddau Integredig yn Nhregaron, sef Cylch Caron.

Mae Mr Peter Skitt yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn parhau i arwain Bwrdd ymroddedig o gynrychiolwyr gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid a fydd yn parhau i fwrw ati i hybu amcanion strategol a chynllun cyflawni'r prosiect hwn.

Mae gweithgor o swyddogion y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor wrthi'n adolygu ac yn diweddaru'r achos busnes yn barod ar gyfer mynd â'r cynllun yn ei flaen. Y bwriad yw cychwyn ar broses aildendro ar gyfer partner datblygu yn hydref 2021.

Cam nesaf y prosiect partneriaeth fydd trefnu digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' er mwyn ailsefydlu'r broses o ddenu partner datblygu newydd. Mae proses dendro

ffurfiol wrthi'n cael ei pharatoi a bydd hon ar waith ar ôl y digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr'.

**ARGYMHELLIAD: Nodi'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu cyn lansiad y tendr**

**Enw Cyswllt: Nerys Lewis**
**Swydd: Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Uniongyrchol, Porth Gofal**
**Dyddiad yr adroddiad: 22.07.2021**
**Acronymau: Dim**